



4.0 Gwirfoddolwyr

Iaith Wirfoddoli Egluro'r Termau

Trosolwg

1. Cyflwyniad
2. Termau Gwirfoddoli
3. Gwybodaeth bellach

Cyflwyniad

Gall yr iaith rydyn ni'n ei defnyddio ynghylch gwirfoddoli fod yn ddryslyd. Weithiau, defnyddir gwahanol dermau yn gyfnewidiol.

Mae gan rai termau ystyr penodol iawn, er enghraifft, yng nghyd-destun deddfwriaeth.

Dyma ymdrech i egluro rhai termau sy'n berthnasol i wirfoddoli. Maen nhw wedi'u rhestru yn ôl trefn yr wyddor.



Llun: Grŵp o wirfoddolwyr yn dal dwylo

Termau Gwirfoddoli

Cyfle gwirfoddoli

Caiff rolau gwag penodol ar gyfer gwirfoddolwyr eu disgrifio'n gyfleoedd gwirfoddolwyr (**neu wirfoddoli**), fel yr hysbysebir ar wefan y cyfleoedd gwirfoddoli. Fel arfer, ceir disgrifiad rôl sy'n disgrifio'r disgwyliadau, ond yn aml, bydd hwn yn cael ei drafod a gellir ei addasu yn unol â gofynion ac amgylchiadau'r unigolyn.



Dolen Allanol

Dewch o hyd i gyfleoedd gwirfoddoli ar wefan Gwirfoddoli Cymru.

[Gwefan Gwirfoddoli Cymru](#)

Cyfranogiad Cymunedol

Mae'r term hwn yn berthnasol i elfen o Fagloriaeth Cymru. Bydd disgyblion rhwng 14-19 oed yn cwblhau lleoliad am 15-30 o oriau gyda'r nod o gyflwyno budd i'r gymuned er mwyn ennill credyd ar gyfer eu cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Gellid cyfeirio at hwn hefyd fel **Her Gymunedol**.

Cynlluniau bancio amser

Mae cynlluniau bancio amser yn ymwneud â rhoi amser i ryw weithgaredd o fewn y gymuned, yn gyfnewid am '**gredydau**' y gellir eu defnyddio ar amrediad o fuddion neu wobrau. Caiff y gwobrau hyn eu diffinio gan bob cynllun bancio amser, a bydd gan bob un gwerth credyd penodol.

Mae cynlluniau bancio amser yn gofyn am gydlyniant gweinyddol, gan gynnwys cadw cofnodion credyd unigol a hybu i gynnwys aelodau a phartneriaid newydd. Mae rhai cynlluniau'n derbyn cyllid allanol. Y tu hwnt i hyn, mae cynlluniau bancio amser yn amrywio'n fawr o ran y math o weithgareddau y gellir eu gwneud i ennill credydau. Mae banciau amser yn dueddol o gyfeirio at '**aelodau**' yn hytrach na '**gwirfoddolwyr**'.

Mewn rhai achosion, gall gweithgareddau bancio amser ymddangos fel gweithgareddau gwirfoddoli, ond gan fod credydau'n cal eu '**hennill**' am amser a '**roddir**' nid yw'n cyd-fynd â'r diffiniad cyffredin o wirfoddoli sy'n cynnwys gweithgareddau heb fudd ariannol.

Deiliaid Swydd Di-dâl

Mae CThEM yn disgrifio deiliaid swydd di-dâl fel swyddogion sydd wedi'u hethol o dan gyfansoddiad cyrff fel clybiau chwaraeon a chlybiau cymdeithasol a phobl sy'n ymgymryd â gwaith di-dâl o fewn mudiadau masnachol arferol, neu o fewn meysydd fel y gwasanaethau iechyd, cyrff llywodraethu Colegau Addysg Bellach neu'r llysoedd.

Ni chaiff deiliaid swydd o'r fath eu talu am eu gwasanaethau, ond gallent dderbyn taliadau teithio a chynhaliaeth. Mewn rhai achosion, gallent fod yn gymwys am lwfans colled ariannol (**yn gyfnewid am y cyflogau a fyddai wedi'u hennill fel arall**). Caiff aelodau o gyrff cyhoeddus, ynadon ac aelodau o'r rheithgor eu talu am enillion a gollir, **er enghraifft, caiff Deiliaid Swydd Di-dâl eu hystyried yn wirfoddolwyr ar y cyfan a gallant gynnwys deiliaid swydd ar gyrff llywodraethu a Byrddau Ymddiriedolwyr.**

Gwaith di-dâl

Mae Rochester (2006) yn disgrifio gwirfoddoli fel tri chylch sy'n gorgyffwrdd wedi'u labelu fel '**gwaith neu wasanaeth di-dâl**', '**gweithredu**' a '**hamdden ddifrifol**'. Ar y model hwn, byddai'r rhan fwyaf o wirfoddoli o fewn mudiadau'n cael ei ystyried fel '**gwaith di-dâl**'. Fodd bynnag, mae'r **Adran Gwaith a Phensiynau**, yn deall bod gwaith di-dâl yn weithgaredd y gallech ddisgwyl cael eich talu amdano, ond nid ydych. Mae llyfryn yr Adran Gwaith a Phensiynau ar wirfoddoli (2010) yn nodi:



'Nid yw dewis peidio â chael eich talu yr un peth â gwirfoddoli. Os ydych chi'n gwneud rhywbeth y byddai rhywun fel arfer yn cael ei dalu amdano (er enghraifft, os ydych chi'n gweithio mewn busnes neu i aelod o'ch teulu lle byddent fel arfer yn talu rhywun i wneud y gwaith), byddem yn ystyried hwn yn waith di-dâl, nid yn gwirfoddoli.


Os ydych chi'n cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Credyd Cynhwysol, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Budd-dal Tai neu Fudd-dal y Dreth Gyngor, gallem benderfynu fod yr hyn y byddech chi wedi cael eich talu yn 'enillion tybiannol'. Os byddwn ni'n penderfynu hyn, gallai effeithio ar eich budd-daliadau a'ch credydau treth.

Rydyn ni'n penderfynu trwy edrych ar:

- A fyddai rhywun fel arfer yn cael ei dalu am wneud yr un math o waith
- A yw eich gwaith yn helpu'r gymdeithas neu eich cymuned mewn rhyw fodd, ac
- A ydych chi'n gweithio i elusen neu grŵp tebyg



Mae angen bod yn ofalus nad oes camddehongliad posibl, os ydych chi'n defnyddio'r term 'gwaith di-dâl'.



A three-perspective model of volunteering (Rochester, 2006)

Gwaith Gwirfoddol

Mae CThEM (Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi) yn nodi gwaith gwirfoddol fel a ganlyn:



"Ystyriwch eich bod yn gwneud gwaith gwirfoddol os mai dim ond rhai buddion penodol y gallwch chi eu cael (e.e. treuliau teithio neu ginio) a'ch bod yn gwirfoddoli i: elusen, mudiad gwirfoddol neu gorff statudol."

Gan ystyried yr angen i wahaniaethu'n glir rhwng 'gwirfoddoli' a 'gwaith' mewn llawer o amgylchiadau, nid yw'r term hwn yn un defnyddiol iawn yn gyffredinol. Gallai 'gwirfoddoli' neu 'weithgaredd gwirfoddol' fod yn ddigon. Gallai, fodd bynnag, gael ei ddefnyddio mewn perthynas â 'gweithiwr gwirfoddol'.

Gwasanaeth Cymunedol

Gweithgaredd a wneir gan unigolyn neu grŵp er lles cymuned yw hwn. Gall fod yn wirfoddol, ond nid bob amser. Gall fod gofyniad ar bobl i wneud gwasanaeth cymunedol fel rhan o ddedfryd am gyflawni trosedd neu gall fod yn rhan o gwricwlwm yr ysgol. Mewn amgylchiadau eraill, gall pobl fod wedi dewis gwneud gwasanaeth cymunedol, er enghraifft, trwy ymuno â grŵp neu ymgyrch. Mae gwasanaeth cymunedol yn derm eang sy'n gallu golygu gwahanol bethau mewn gwahanol gyd-destunau.

Gweler hefyd [Lleoliad Gwaith Cymunedol](#) a [Chyfranogiad Cymunedol](#).

Gweithredu Cymdeithasol

Dyma ddiffiniad o weithredu cymdeithasol fel y cytunwyd at ddibenion gwaith ymchwil yn ymwneud â phobl ifanc ([Ockenden a Stuart 2014](#)):



“(Pobl ifanc) yn cymryd camau ymarferol i wasanaethu eraill er mwyn creu newid cymdeithasol cadarnhaol sydd o fudd i'r gymuned ehangach ac i'r bobl (ifanc) eu hunain. Mae'n fath o wirfoddoli, gyda phwyslais ar newid cymdeithasol.”

Mae'r ymgyrch #byddaf ([Step Up To Serve](#)) yn darparu diffiniad â mwy o fanylder o'r hyn y gallai gweithredu cymdeithasol ei olygu'n ymarferol,



“Mae gweithredu cymdeithasol yn cyfeirio at weithgareddau sy'n peri i bobl wneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl eraill neu i'r amgylchedd. Gall pobl gymryd camau ymarferol i wneud gwahaniaeth cadarnhaol mewn llawer o ffyrdd, gellir eu gwneud mewn cyd-destunau amrywiol a gallant fod yn weithgareddau ffurfiol neu anffurfiol. Mae'r rhain yn cynnwys gwirfoddoli, codi arian, ymgyrchu neu gynorthwyo cymheiriaid.”

Gweithiwr Gwirfoddol

Mae hwn yn derm technegol sy'n caniatáu ar gyfer eithriad o dan **Ddeddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998. (NMW)**. Gallai gwirfoddolwyr amser llawn, fel y rheini sy'n ymgymryd â gwirfoddoli preswyl, ddod o dan y categori hwn. Mae natur y trefniadau yn golygu eu bod yn gweithio dan gontract ([ysgrifenedig neu ddealedig](#)), ac yn aml, disgwylir iddynt fodloni oriau a dyletswyddau a ragnodwyd. Yn ôl canllawiau'r llywodraeth ar yr isafswm cyflog:

'Mae gweithwyr gwirfoddol yn eich mudiad wedi'u heithrio o'r NMW os yw'r ddau beth hyn yn gymwys:

- Rydych chi'n elusen, yn fudiad gwirfoddol, yn gorff codi arian cysylltiedig neu'n gorff Statudol
- Nid ydych yn rhoi taliadau ariannol iddyn nhw a dim ond treuliau a buddion cyfyngedig, penodol'

Gallai gweithwyr gwirfoddol ystyried eu hunain yn wirfoddolwyr yn aml, ond a dweud y gwir, 'gweithwyr' ydyn nhw o dan y gyfraith. Maen nhw'n mwynhau rhai hawliau na chaiff gwirfoddolwyr (ond nid cymaint ag y caiff cyflogeion). Er enghraifft, cânt eu diogelu gan **Reoliadau Amser Gwaith (1998)** a chan ddarpariaethau deddfwriaeth gwrth-wahaniaethu ar gyfer gweithwyr.

Gwirfoddoli (pan dderbynnir budd-daliadau lles)

Gall unigolion sy'n derbyn budd-daliadau lles ymgymryd â gwirfoddoli trwy ddewis, cyhyd â bod eu hyfforddwr gwaith o'r Ganolfan Byd Gwaith yn cael gwybod ac nad yw'r gweithgaredd hwn yn peryglu unrhyw un o'r rhag-amodau sy'n gysylltiedig â'r budd a dderbynnir – er enghraifft, gweithgareddau chwilio am waith sydd wedi'u cytuno fel rhan o **Contract Hawlydd**.

Mewn rhai achosion, ac os bydd unigolyn yn dewis hyn, gellir cynnwys gweithgaredd gwirfoddoli fel rhan o'r **Contract Hawlydd**. Mewn achos o'r fath, bydd gweithgaredd gwirfoddoli penodol wedi'i gydnabod fel rhan werthfawr o ddatblygu cyflogadwyedd yr unigolyn, a gallai methu ag ymgymryd â'r gwirfoddoli fel y cytunwyd yn y contract hwn arwain at gosbau yn erbyn y budd-daliadau.

Gwirfoddoli Anffurfiol

Gweithgareddau gwirfoddol di-dâl a wneir yn annibynnol o fudiad ffurfiol, yn aml ar lefel gymdogaeth ond y tu allan neu'n ychwanegol i'r teulu.

Gwirfoddoli dan arweiniad ieuenctid

Gwirfoddoli a gaiff ei 'arwain, meddiannu a'i lunio gan anghenion, syniadau a phenderfyniadau pobl ifanc' (Ockendon ac eraill, 2013). Gall hwn fod ar lawer o wahanol ffurfiau, gan gynnwys prosiectau a arweinir yn llwyr gan ieuenctid a'u dechrau gan bobl ifanc, ond gall hefyd gynnwys

gweithgareddau â chymorth dan arweiniad ieuencid, lle y caiff pobl ifanc eu cefnogi gan oedolion i arwain y gwaith.

Gwirfoddoli Ffurfiol

Gweithgareddau gwirfoddol di-dâl a wneir gyda neu o dan nawdd mudiad.

Gwirfoddolwr

Gwirfoddolwr yw rhywun sy'n neilltuo amser ac egni er budd cymdeithas a'r gymuned, a gall ddigwydd mewn sawl ffordd. Mae'n cael ei wneud o wirfodd a drwy ddewis, heb ddisgwyl enillion ariannol.

Dyma'r diffiniad a gydnabyddir gan Lywodraeth Cymru, fel y gwelir, **er enghraifft, yng Nghynllun y Trydydd Sector (Ionawr 2014)**. Nid yw gwirfoddolwr yn swydd contractiol (**boed hynny'n ysgrifenedig neu'n ddealedig**). Mae'n gyfreithlon iddo dderbyn ad-daliad am dreuliau parod.

Interniaeth

Nid oes diffiniad cyfreithiol o interniaeth. Cyfle strwythuredig gyda therfyn amser yw interniaeth, sydd â dyddiad dechrau a diwedd diffiniedig. Nod interniaeth yw datblygu sgiliau a gwybodaeth unigolyn wrth ddarparu profiad ystyrlon i wella cyflogadwyedd.

Gall interniaethau fod â thâl neu'n ddi-dâl. Mae **interniaid sy'n cael eu talu** yn rhwym wrth isafswm cyflog a deddfwriaeth gyflogaeth. Caiff **interniaid nad ydynt yn cael eu talu** eu hystyried yn interniaid gwirfoddol os:

- Ydynt yn cael eu lleoli o fewn mudiad yn y Sector Cyhoeddus neu'r Trydydd Sector
- Oes trefniadau hyblyg ar waith, gyda gweithgareddau wedi'u diffinio mewn disgrifiad o'r interniaeth, ond dim rhwymedigaethau contractiol yn eu lle
- Nad oes gwobr na budd ariannol ar wahân i dreuliau dilys sy'n codi
- Oes fframwaith cymorth ar waith sy'n benodol i'r intern gwirfoddol, gan gynnwys er enghraifft, Polisi Interneiaeth, strwythurau cymorth a goruchwyllo a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â phroblemau
- Byddai interniaid gwirfoddol yn cael eu hystyried yn wirfoddolwyr fel arfer, ond argymhellir polisiau sy'n benodol i interniaid

Lleoliad Gwaith Cymunedol

Yn rhan o'r system budd-daliadau lles, mae system **Lleoliadau Gwaith Cymunedol (CWP)**



“wedi'i hanelu at yr hawlwyd hynny y mae eu prif rwystrau i waith yn cynnwys diffyg profiad gwaith neu gymhelliant, ac sydd wedi treulio cryn amser i ffwrdd o amgylchedd gwaith strwythuredig. Nod CWP yw rhoi cyfnod gwerthfawr o brofiad mewn amgylchedd gwaith i geiswyr gwaith, gan eu galluogi i ddatblygu'r disgyblaethau a'r sgiliau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth barhaol, yn ogystal â'u symud i mewn i gyflogaeth.”

Mae'r rhaglen wedi'i hanelu at hawlwyd y **Lwfans Ceisio Gwaith (JSA)** sydd wedi cwblhau'r **Rhaglen Waith** ac sydd wedi'u hadnabod fel rhai a allai gael budd o'r gweithgarwch hwn. Pan fydd hyn wedi'i gytuno, bydd yn rhan o ymrwymiad yr hawlwyd unigol a, chan hynny, yn weithgaredd gorfodol. Gan eu bod yn orfodol, nid yw **Lleoliadau Gwaith Cymunedol** yn cyd-fynd â'r diffiniad o wirfoddoli a dderbynnir yn eang.

Lleoliad gwirfoddoli

Defnyddir y term pan fydd asiantaeth atgyfeirio, fel canolfan gwirfoddolwyr neu ganolfan gwaith, yn cyflwyno gwirfoddolwr i gyfle gwirfoddoli o fewn mudiad. Weithiau, caiff lleoliadau gwirfoddoli eu monitro at ddibenion monitro perfformiad.

Mudiad/Sector Gwirfoddol

Yn wreiddiol, defnyddiwyd y term i olygu mudiad a sefydlwyd yn annibynnol o'r wladwriaeth, i gyflawni budd cyhoeddus. Heddiw, rydyn ni'n ei ddefnyddio'n gyffredinol i gyfeirio at unrhyw fudiad lle mae pobl wedi dod ynghyd o'u gwirfodd i wneud gwahaniaeth, nid am arian nac am fod y gyfraith yn dweud wrthyn nhw.

Mudiad dan arweiniad gwirfoddolwyr

At ddiben gwaith ymchwil a gyflawnwyd yn 2008, gwnaeth y Sefydliad Ymchwil Gwirfoddoli ddiffinio mudiad dan arweiniad gwirfoddolwyr fel a ganlyn:



'Mae grŵp neu fudiad dan arweiniad gwirfoddolwyr yn grŵp cymunedol lle mae 'arweinydd' y grŵp yn wirfoddolwr â 'swyddogaethau a etholwyd neu a benodwyd yn ffurfiol'. Y cadeirydd yw hwn yn aml, ond nid bob amser. Y swydd gyfwerth mewn mudiad sy'n talu yw'r prif swyddog gweithredol. Nid yw hwn yn cynnwys ymddiriedolwyr mewn mudiadau sy'n talu staff.'

Mewn rhai achosion, mae mudiadau dan arweiniad gwirfoddolwyr yn cyflogi staff a delir, er enghraifft, mewn rolau gweinyddol. Mae arweinyddiaeth weithredol y mudiad yn parhau i fod dan arweiniad gwirfoddolwyr.

Mudiad sy'n cynnwys gwirfoddolwyr

Unrhyw fudiad sy'n cynnwys gwirfoddolwyr yn ei reolaeth a/neu ei waith bob dydd. Os mai'r unig wirfoddolwyr mewn mudiad yw ymddiriedolwyr elusen, yna ni fyddai'r mudiad yn cael ei ddisgrifio fel mudiad sy'n cynnwys gwirfoddolwyr (**oni bai eu bod yn gwirfoddoli i'r mudiad mewn capasiti ychwanegol**).

Profiad gwaith

Mae profiad gwaith yn gyfle i unigolyn ddysgu yn yr amgylchedd gwaith; gall hyn fod trwy gysgodi staff neu roi cynnig ar dasgau amrywiol. Fel arfer, mae'n elfen orfodol o gwrs addysgol.

Gall myfyrwyr ysgol gyflawni un neu ddwy wythnos o brofiad gwaith; gall myfyrwyr mewn addysg drydyddol wneud cyfnodau hirach (**gellid cyfeirio at hwn fel lleoliad gwaith, lleoliad myfyriwr neu brofiad ymarferol**). Er enghraifft, gofynnir i fyfyrwyr ar gyrsiau cwnsela fodloni nifer gofynnol o oriau o brofiad ymarferol mewn cwnsela, ochr yn ochr â'u hastudiaethau academiaidd.

Yn ei hanfod, dylai unrhyw leoliad gynnig amgylchedd dysgu cefnogol. Nid oes hawl gan fyfyrwyr sy'n gwneud profiad gwaith fel rhan o gwrs addysg uwch neu bellach gael isafswm cyflog cenedlaethol os yw'r profiad gwaith am lai na blwyddyn o hyd.

Nid yw profiad gwaith yn cael ei ystyried yn gwirfoddoli fel rheol, ond gall arwain at wirfoddoli weithiau, pan fydd unigolion yn dewis cyflawni gweithgaredd sydd y tu hwnt i ofynion eu cwrs/sefydliad addysgol.

Profiad Gwirfoddol

Term cyffredinol, sydd fel arfer yn rhoi pwyslais ar y sgiliau, y datblygu personol a'r buddion personol eraill a geir wrth wirfoddoli. Caiff hwn ei werthfawrogi er mwyn llunio CV, neu am fuddion personol a fydd o fudd i yrfa rhywun.

Trydydd Sector

Defnyddir y term gan Lywodraeth Cymru fel disgrifiad cynhwysol a throswaol o amrediad amrywiol o fudiadau sy'n rhannu set o werthoedd a nodweddion. Mae mudiadau Trydydd Sector:

- Yn gyrff annibynnol, anllywodraethol
 - Wedi'u sefydlu'n wirfoddol gan bobl sy'n dewis trefnu eu hunain (e.e. yn cael eu rheoli gan Fwrdd Ymddiriedolwyr gwirfoddol)
 - 'Wedi'u gyrru gan werth' a'u cymell gan ddiwylliant cymdeithasol neu amcanion amgylcheddol, yn hytrach na dim ond i wneud elw
 - Er lles pobl a chymunedau yng Nghymru
-

Ymddiriedolwr

Gwirfoddolwyr yw ymddiriedolwyr; mae ganddyn nhw reolaeth gyffredinol dros fudiad gwirfoddol ac maen nhw'n gyfrifol am wneud yn siŵr ei fod yn gwneud yr hyn roedd wedi'i sefydlu i'w wneud. Gall ymddiriedolwyr gael eu hadnabod o dan deitlau eraill, gan gynnwys aelodau bwrdd, llywodraethwyr, aelodau pwyllgor. Os yw'r mudiad y maen nhw'n ei redeg yn gwmni, yr ymddiriedolwyr fydd Cyfarwyddwyr y cwmni hefyd. Pa bynnag deitl a roddir iddyn nhw, yr ymddiriedolwyr yw'r bobl sy'n arwain y mudiad ac yn penderfynu sut caiff ei redeg.

Gwybodaeth Bellach

Gwirio eich Hawliau Cyflogaeth (Saesneg yn Unig)

ACAS

<https://www.acas.org.uk/checking-your-employment-rights>

Prentisiaethau, Interniaethau, a Lleoliadau Gwaith

Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD)

https://llyw.cymru/prentisiaethau-dewis-doeth?_ga=2.268370055.802041381.1626681834-1571550259.1598956565

Canllawiau ar Interniaethau (Saesneg yn Unig)

NCVO

<https://knowhow.ncvo.org.uk/your-team/volunteers-and-your-organisation/volunteering-internships#guidance>

Siarter Gwirfoddoli Ieuenctid a Gweithredu Cymdeithasol CGGC

<https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/01/Siarter-gwirfoddoli-ieuenctid-a-gweithredu-cymdeithasol.pdf>

Bancio Amser (Saesneg yn Unig)

Timebanking

www.timebanking.org

Ymddiriedolwyr

Llywodraeth y DU

www.gov.uk/guidance/charity-trustee-whats-involved.cy

Llawlyfr Incwm Cyflogaeth – Deiliaid Swydd Di-dâl (Saesneg yn Unig)

CThem

www.hmrc.gov.uk/manuals/eimanual/eim71100.htm

Gwirfoddoli pan dderbynnir budd-daliadau (Saesneg yn Unig)

Llywodraeth y DU

<https://www.gov.uk/guidance/volunteering-and-claiming-benefits>

Gwybodaeth Bellach

Arolwg Time Well Spent (Saesneg yn Unig)

NCVO

<https://www.ncvo.org.uk/policy-and-research/volunteering-policy/research/time-well-spent>

Beth yw Gweithredu Cymdeithasol? (Saesneg yn Unig)

Ymgyrch #byddaf

<https://www.iwill.org.uk/about-us/youth-social-action>

Sbectrwm Cyfranogiad Gwirfoddolwyr, Eden Project

Cymunedau, 2021

Eden Project Cymunedau

https://www.edenprojectcommunities.com/sites/default/files/volunteer_report_welsh.pdf

Taflenni Gwybodaeth Ychwanegol

Cefnogi Trydydd Sector Cymru

4.11 Gwirfoddolwyr a'r Gyfraith



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â <https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/>

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.